CYNGOR
Sir y Fflint
Flintshire
COUNTY COUNCIL

CYNGOR SIR Y FFLINT
CYTUNDEB TENANTIAETH GAREJ

Garej: _____

_____

Yr ydych wedi cael tenantiaeth y garej uchod.

Mae'r garej yn cael ei osod yn amodol ar wythnos o rybudd naill ai gennych chi neu gan Gyngor Sir y Fflint ar denantiaeth wythnosol, a bydd y rhent yn ddyledus wythnos o flaen llaw.

Bydd eich tenantiaeth newydd yn dechrau dydd Llun, _____

Y rhent sy'n ddyledus yw **£** _____ yr wythnos.

Mae'n bwysig eich bod yn darllen ac yn derbyn amodau'r denantiaeth, sydd ar gefn y cytundeb hwn.

Llofnodwch isod os ydych yn derbyn y denantiaeth.

Rwy'n derbyn tenantiaeth y garej _____

Llofnod: _____

Enw Llawn: _____ [Mr, Mrs, Ms, Miss] _____

Cyfeiriad: _____

_____

Dyddiad: _____ rhif ffôn: _____

Llofnod y Cynorthwy-ydd Gweinyddol/ Swyddog Tai _____

Sylwch:-

Os byddwch yn newid eich cyfeiriad ac am barhau i gadw tenantiaeth y garej, cysylltwch â'ch Swyddfa Tai leol cyn gynted ag y bo modd, naill ai drwy ffonio neu drwy lythyr, er mwyn i ni newid ein cofnodion.

SWYDDFA RHANBARTH Y GOGLEDD
Swyddfeydd y Sir, Adeiladau Kings Head, Y Stryd Fawr, Treffynnon, CH8 7TH
rhif ffôn 01352 701753

SWYDDFA RHANBARTH Y DE
Neuadd y Sir, Yr Wyddgrug, CH7 6NT
rhif ffôn 01352 701639

SWYDDFA RHANBARTH Y DWYRAIN
Swyddfeydd y Sir, Wepre Drive, Cei Connah, CH5 4HB
rhif ffôn 01352 701181

CYNGOR SIR Y FFLINT

AMODAU TENANTIAETH - GAREJYS, CYSGODFEYDD CEIR A LLEFYDD PARCIO

1. Cytundeb **wythnosol** fydd y denantiaeth a bennir ar unrhyw ddydd Llun drwy rybudd ysgrifenedig wythnos o flaen llaw gan y naill barti neu'r llall.

2. **MAE'R RHENT YN DDYLEDUS AC YN DALADWY** wythnos o flaen llaw ar ddydd Llun, ac mae'n rhaid talu rhandaliadau'r dreth dwr, ac unrhyw daliadau eraill a ddangosir ar y cerdyn rhent yr un pryd.

3. **BYDD Y TENANT**

   (a) yn gyfrifol am gadw'r tu mewn i'r garej yn lân ac mewn cyflwr priodol a bydd yn ei adael yn y cyflwr hwnnw pan ddaw'r denantiaeth i ben;

   (b) yn caniatáu i swyddogion y cyngor fynd i mewn i'r garej i'w archwilio ar unrhyw adeg resymol i wneud unrhyw waith trwsio, addasu neu ychwanegiadau yn ôl y gofyn;

   (c) yn sicrhau nad yw unrhyw gerbyd sy'n cael ei barcio yn y garej yn effeithio ar ansawdd y lluniau a dderbynnir ar setiau teledu cyfagos drwy osod a chynnal a chadw teclyn gwrth ymyrraeth trydanol;

   (ch) yn sicrhau bod y garej wedi'i gloi pan na fydd neb yno;

   (d) yn ad-dalu'r Cyngor am gostau trwsio unrhyw ddifrod i'r garej o ganlyniad i weithred neu esgeulustod ar ran y tenant;

   (dd) yn rhoi goriad y garej yn ôl i'r Cyngor pan ddaw'r denetiaeth i ben;

4. **NI FYDD Y TENANT**

   (a) yn defnyddio safle'r garej ar gyfer unrhyw fasnach neu fusnes neu at unrhyw ddiben arall heblaw cadw car, meic modur neu feic modur ac ystlysgar ac ni fydd yn eu defnyddio yn y garej dan sylw mewn modd a fyddi'n gallu bod yn beryglus neu beri niwed, niwsans neu boendod i unrhyw un neu i adeilad arall;

   (b) yn trosglwyddo, yn isosod neu'n rhoi perchnogaeth y garej i neb arall;

   (c) yn ymyrryd â'r tu mewn i'r garej mewn unrhyw ffordd;

   (ch) yn cadw neu'n storio petrol yn y garej mewn unrhyw gynhwysydd heblaw tanc petrol y cerbyd a gedwir yn y garej; yn cadw poteli/silidrau nwy nac unrhyw ddeunydd hylosg a fyddai'n beryglus i unrhyw un arall neu i adeilad arall.

   (d) yn caniatáu i unrhyw rwystr gael ei roi ar y tir o flaen y garej neu'r ffordd sy'n arwain ato, neu unrhyw garej arall sy'n perthyn i'r Cyngor a bydd bob amser yn cadw'r tir o flaen y garej neu'r ffordd sy'n arwain ato yn lân, yn ddirwystr ac yn daclus;

5. **Bydd y Cyngor yn terfynu'r denantiaeth os bydd y tenant yn yn torri unrhyw un o'r amodau hyn.**